

## Adnoddau dwyieithog

### HWB

Mae adnoddau dwyieithog ar gael ar HWB, ac maen nhw'n cynnwys, ymhlith pethau eraill;

- Hanesion Noddfa — gan Raglen Dysgu Byd-eang Cymru
- Sefyll gyda ffoaduriaid - gan Oxfam
- Hanes pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru — gan People's Collection Wales

<https://hwb.gov.wales/repository/discovery?query=refugee&sort=relevance&strict=1>

### Into Film

Mae Cai, bachgen ifanc sy'n byw mewn cyrchfan glan môr yng Nghymru, yn defnyddio'r traeth fel lloches i osgoi tensiwn gartre, lle mae ei dad yn cael trafferth addasu ar ôl dychwelyd o ryfel yn ddiweddar. Wrth grwydro un diwrnod, mae Cai yn dod ar draws bachgen unig, fawr ddim hŷn nag ef ei hun, sydd wedi bod yn byw ar y traeth. Oherwydd nad yw'n siŵr sut i helpu'r bachgen, Amir, sy'n ffoadur, mae Cai yn troi at ei dad. Er nad ydyn nhw'n siarad yr un iaith, mae tad Cai ac Amir yn darganfod bod y ddau ohonynt yn cael trafferth delio â thrawma eu profiadau yn ystod rhyfel.

<https://www.intofilm.org/films/18931>

### Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

Bydd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, yn lansio fideo yn agosach i Ddiwrnod Plant y Byd. Cadwch lygaid allan ar sianelu cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer y fideo.

## Saesneg yn unig

### UNICEF

'Article of the Week', sef cyfres reolaidd o weithgareddau dysgu yn ymwneud ag erthygl benodol — gallwch chi ddefnyddio pecynnau Erthygl 22 ac Erthygl 10

<https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/teaching-resources/guidance-assemblies-lessons/article-of-the-week/>

Age 7 plus — Mae'r adnodd hwn, sydd ar gael i'w lawrlwytho, yn rhoi cyfle i chi archwilio'r argyfwng ffoaduriaid a phobl fudol gyda phlant a phobl ifanc yn yr ysgol

<https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/teaching-resources/guidance-assemblies-lessons/refugee-crisis-europe/>

### Amnesty International

Speaker toolkit — Mae'r adnodd hwn yn cefnogi Siaradwyr Amnest i gyflwyno myfyrwyr 7-14 oed i destun hawliau ffoaduriaid

<https://www.amnesty.org.uk/resources/speaker-toolkit-refugee-rights#.WCr4L0LIG1E>

The Journey gan Francesca Sanna Flying Eye Books (Cynradd/uwchradd is). Mae'r llyfr lluniau hwn yn cyflwyno persbectif grymus ar fudo, fydd yn cyffwrdd â darllenwyr o bob oed.

[https://www.amnesty.org.uk/files/exploring\\_the\\_journey\\_together.pdf](https://www.amnesty.org.uk/files/exploring_the_journey_together.pdf)

## Ysgolion Noddfa / Schools of Sanctuary

Schools of Sanctuary yw'r mudiad cenedlaethol i greu diwylliant o groeso, er mwyn cefnogi'r miloedd o bobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i ddod i chwilio am ddiogelwch trwy fyw yn y Deyrnas Unedig, a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â ffoaduriaid. Mae'r pecyn adnoddau yma wedi cael ei greu i'ch ysbrydoli, p'un a ydych chi'n ysgol gynradd, yn ysgol uwchradd, neu'n goleg chweched dosbarth.

<https://schools.cityofsanctuary.org/resources>

## Into Film

DAD:

Mae Cai, bachgen ifanc sy'n byw mewn cyrchfan glan môr yng Nghymru, yn defnyddio'r traeth fel lloches i osgoi tensiwn gartre, lle mae ei dad yn cael trafferth addasu ar ôl dychwelyd o ryfel yn ddiweddar. Wrth grwydro un diwrnod, mae Cai yn dod ar draws bachgen unig, fawr ddim hŷn nag ef ei hun, sydd wedi bod yn byw ar y traeth. Oherwydd nad yw'n siŵr sut i helpu'r bachgen, Amir, sy'n ffoadur, mae Cai yn troi at ei dad. Er nad ydyn nhw'n siarad yr un iaith, mae tad Cai ac Amir yn darganfod bod y ddau ohonynt yn cael trafferth delio â thrawma eu profiadau yn ystod rhyfel. (Cymraeg gydag isdeitlau Saesneg)

<https://www.intofilm.org/films/18931>

Thema Ffoaduriaid a Phobl Fudol:

Yn y cyd-destun hwn, gall ffilm fod yn gyfrwng eithriadol o effeithiol i ddatgelu'r hanesion ynol y tu ôl i faterion sosio-economaidd gwleidyddol mor gymhleth, ac i annog mwy o ymdeimlad o empathi, parch a dealltwriaeth ddiwylliannol ymhlith pobl ifanc.

<https://www.intofilm.org/theme/115>

## Llyfrau

Gallech chi wirio i weld oes gan eich llyfrgell gopiâu o'r llyfrau canlynol eisoes, neu efallai hoffech chi ystyried eu prynu ar gyfer llyfrgell eich ysgol chi.

Y Crwt yn y Cefn (cyfieithiad o *The Boy At the Back of the Class*) - Onjali Rauf

Illegal: Nofel graffig yn adrodd hanes taith epig un bachgen i Ewrop — Eoin Colfer ac Andrew Donkin